# Recruiting to the Out of School Childcare Sector

Funding for qualifications has enabled new learners to progress their Childcare and Playwork knowledge, complete their volunteer hours for their Welsh Baccalaureate and add an additional qualification to their CV and university applications.

Through additional funding provided through Newport Children and Communities Grant (CCG), Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs was able to arrange and deliver a Level 2 Award in Playwork Practice (L2APP) qualification, available to all Newport Out of School Clubs. This included a free travel bursary to encourage younger learners to attend.

To promote this, Childcare Business Development Officers visited Ysgol Gyfun Gwent Is Coed to deliver a speech through the medium of Welsh to year 11s interested in a career in Playwork. This was a joint effort with Mudiad Meithrin, Menter Iaith Casnewydd and local Welsh language settings Wibli Wobli and Pitter Patter Play. The information was also shared to all Out of School Childcare Clubs within the Newport County.

Within the group of learners that signed up to the course, three local school pupils registered an interest. As they were not working in a setting, Childcare Business Development Officers used this opportunity to work with the Out of School Childcare community to arrange placements. The aim was to find a club that was within walking distance for the pupils, and Archway Court kindly offered the After School Club and Holiday Club as a setting for them to volunteer.

The three-day L2APP was held in Malpas Court Mansion with three separate settings in total attending. The attendees were introduced to Playwork through an interactive course with a mixture of written and practical topics. The feedback provided was positive in all areas with 100% claiming that the course was well taught and well organised and 4/5 attendees also claiming that they would recommend Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs training to others and that they will be using what they have learnt within their setting (the other attendee left both answers empty).

The Childcare Business Development Officers then attended the first day of placement with Archway Courts new volunteers, assisting the manager with organising what days and times of sessions they were able to attend the club. They were then inducted into the setting (emergency procedures, first aid, person in charge etc.)

This new relationship resulted in two of the volunteers representing Archway Court in a Continuing Professional Development course, also funded through the Children and Communities Grant (CCG)). They were able to build upon their existing knowledge during these online sessions and meet other playworkers in the in-person session.

## Beneficial Outcomes

This opportunity has allowed the learners to progress their Childcare and Playwork knowledge, complete their volunteer hours for their Welsh Baccalaureate and add an additional qualification to their CV and university applications.

Archway Court had an extra three pairs of hands to support their out of school club for 6 weeks and were able to introduce young learners to a future in play work, developing skills such as teamwork and communication through real experiences that can support their future career paths

## Positive Feedback for the trainer

> Bev was very helpful and very easy to understand! Took time to explain things and gave a good understanding of everything. She is amazing and has taught me lots of important and beneficial things about playworkers."

> "The trainer was so passionate, knowledgeable and really wanted us to learn. Such a great child advocate and motivating."

If you need support or have any queries (big or small), don't hesitate to contact us here at Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, we're here to help: info@clybiauplantcymru.org

You can find out more about the support we can offer your club at our website: www.clybiauplantcymru.org

# Recriwtio i'r Sector Gofal Plant All-Ysgol

Mae cyllid ar gyfer cymwysterau wedi galluogi dysgwyr newydd i ddatblygu eu gwybodaeth Gofal Plant a Gwaith Chwarae, cwblhau eu horiau gwirfoddoli ar gyfer Bagloriaeth Cymru ac ychwanegu cymhwyster ychwanegol at eu CV a cheisiadau prifysgol.

Trwy gyllid ychwanegol a ddarparwyd trwy Grant Plant a Chymunedau Casnewydd, roedd modd i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs drefnu a chyflenwi cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae (L2APP), sydd ar gael i holl Glybiau All-Ysgol Casnewydd. Roedd hyn yn cynnwys bwrsariaeth teithio am ddim i annog dysgwyr iau i fynychu.

I hyrwyddo hyn, ymwelodd Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant ag Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i draddodi araith trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion blwyddyn 11 sydd â diddordeb mewn gyrfa mewn Gwaith Chwarae. Roedd hon yn ymdrech ar y cyd gyda Mudiad Meithrin, Menter Iaith Casnewydd a lleoliadau Cymraeg lleol Wibli Wobli a Pitter Patter Play. Rhannwyd y wybodaeth hefyd i bob Clwb Gofal Plant All-Ysgol yn Sir Casnewydd.

Yn y grŵp o ddysgwyr a gofrestrodd ar y cwrs, mynegodd tri disgybl ysgol leol ddiddordeb. Gan nad oeddent yn gweithio mewn lleoliad, manteisiodd Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant ar y cyfle hwn i weithio gyda'r gymuned Gofal Plant All-Ysgol i drefnu lleoliadau. Y nod oedd dod o hyd i glwb oedd o fewn pellter cerdded i'r disgyblion, a bu Archway Court yn ddigon caredig i gynnig y Clwb-Ol Ysgol a'r Clwb Gwyliau fel lleoliad iddynt wirfoddoli.

Cynhaliwyd yr L2APP tri diwrnod o hyd ym Mhlasty Malpas Court gyda chyfanswm o dri lleoliad gwahanol yn mynychu. Cyflwynwyd y mynychwyr i Waith Chwarae trwy gwrs rhyngweithiol gyda chymysgedd o bynciau ysgrifenedig ac ymarferol. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn gadarnhaol ym mhob maes, a 100% yn honni bod y cwrs wedi'i addysgu a'i drefnu'n dda a 4/5 o fynychwyr hefyd yn honni y byddent yn argymell hyfforddiant Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i eraill ac yn defnyddio'r hyn yr oeddent wedi ei ddysgu yn eu lleoliad (gadawodd y mynychwr arall y ddau ateb yn wag).

Yna mynychodd y Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant ddiwrnod cyntaf y lleoliad gyda gwirfoddolwyr newydd Archway Court, gan gynorthwyo'r rheolwr i drefnu pa ddiwrnodau ac amseroedd o sesiynau y gallent fynychu'r clwb. Yna cawsant eu sefydlu yn y lleoliad (gweithdrefnau brys, cymorth cyntaf, person â gofal ac ati)

Arweiniodd y berthynas newydd hon at ddau o'r gwirfoddolwyr yn cynrychioli Archway Court ar gwrs Datblygiad Proffesiynol Parhaus, a hwn yn ogystal wedi ei gyllido trwy'r Grant Plant a Chymunedau. Roeddent yn gallu adeiladu ar eu gwybodaeth gyfredol yn ystod y sesiynau ar-lein hyn a chwrdd â gweithwyr chwarae eraill yn y sesiwn personol.

## Canlyniadau Buddiol

Mae'r cyfle hwn wedi galluogi'r dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth Gofal Plant a Gwaith Chwarae, cwblhau eu horiau gwirfoddoli ar gyfer eu Bagloriaeth Cymru ac ychwanegu cymhwyster ychwanegol at eu CV a'u ceisiadau prifysgol.

Roedd gan Archway Court dri phâr ychwanegol o ddwylo i gefnogi eu clwb all-ysgol am 6 wythnos ac roeddent yn gallu cyflwyno dysgwyr ifanc i ddyfodol mewn gwaith chwarae, gan ddatblygu sgiliau fel gwaith tîm a chyfathrebu trwy brofiadau go iawn a all gefnogi eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol.

## Adborth Cadarnhaol i'r hyfforddwr

> "Roedd Bev yn gymwynasgar iawn ac yn hawdd iawn i'w ddeall! Cymerodd amser i egluro pethau a rhoi dealltwriaeth dda o bopeth. Mae hi'n anhygoel ac wedi dysgu llawer o bethau pwysig a buddiol i mi am weithwyr chwarae."

> "Roedd yr hyfforddwr mor angerddol, gwybodus ac roedd wir eisiau i ni ddysgu. Eiriolwr mor wych dros blant ac mor ysgogol."

Os oes angen cymorth arnoch neu os oes gennych unrhyw ymholiadau peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni yma yng Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, rydym yma i helpu: info@clybiauplantcymru.org

Gallwch ddod i wybod mwy am y gefnogaeth y gallwn ei chynnig i'ch clwb ar ein gwefan: www.clybiauplantcymru.org